



Department  
for Environment  
Food & Rural Affairs

Ground Floor Seacole  
2 Marsham Street  
Llundain  
SW1P 4DF

T: 03459 335577  
helpline@defra.gov.uk  
[www.gov.uk/defra](http://www.gov.uk/defra)

**Dyddiad:** 16/5/2024

Annwyl Ymgynghorai

### Ymgynghoriad ar REACH y DU

1. Ysgrifennwn atoch i wahodd eich barn am gynigion y llywodraeth i ddiwygio'r darpariaethau trosiannol presennol o dan REACH y DU drwy gyflwyno model Cofrestru Trosiannol Amgen (ATRM) ar gyfer REACH y DU. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi fel rhan o ddiweddariad Rheoleiddio Mwy Deallus y Llywodraeth i nodi blwyddyn ers sefydlu'r rhaglen.
2. Rydym hefyd yn holi barn am y cynigion i wneud newidiadau i'r broses adrodd a chyfyngiadau bresennol, a hefyd am y cynnig i gyflwyno mwy o warchodaeth yn erbyn gwneud profion diangen ar anifeiliaid, fel rhan o'n cynigion polisi i wella REACH y DU.
3. Gallwch ddarllen yr ymgynghoriad ar GOV.UK yma: <https://consult.defra.gov.uk/reach-policy/atrm-consultation>. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys dogfen ymgynghori ac asesiad effaith.
4. Rydym yn croesawu eich barn a'ch sylwadau ar y cynigion. Os dymunwch gael copi o'r ymgynghoriad hwn, e-bostiwch [ATRMConsultation@defra.gov.uk](mailto:ATRMConsultation@defra.gov.uk)

### Ymatebion

5. I gyflwyno eich ymateb i'r ymgynghoriad, dylech lenwi holiadur yr ymgynghoriad ar Ofod y Dinesydd yn defnyddio [hyb ymgynghori Gofod y Dinesydd Defra](#) (offeryn ymgynghori ar-lein yw Gofod y Dinesydd).
6. Dylem dderbyn eich ymateb erbyn **25 Gorffennaf 2024**.

Gallwch anfon eich ymateb, neu wybodaeth neu ddogfennau ychwanegol, at:

### Ymgynghoriad REACH y DU

Tîm Polisi a Deddfwriaeth REACH y DU,

Defra Ground Floor, Seacole Building,

2 Marsham Street,  
Llundain, SW1P 4DF

### **Meini prawf yr ymgynghoriad**

7. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal drwy ddilyn "Egwyddorion Ymgynghori" Swyddfa'r Cabinet sydd ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>.

### **Cyfrinachedd a gwybodaeth diogelu data**

Mae Hysbysiad Preifatrwydd Ymgynghori wedi'i lanlwytho gyda'r ymgynghoriad hwn.

Bydd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth y DU yn: [www.gov.uk/defra](http://www.gov.uk/defra). Bydd atodiad i'r crynodeb yn rhestru'r holl sefydliadau wnaeth ymateb a pha ran o'r DU y maen nhw'n ei gynrychioli, ond nid enwau, cyfeiriadau na manylion cyswllt personol pobl.

Mae'n bosib y bydd gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn cael ei chyhoeddi neu ei datgelu'n unol â deddfwriaeth mynediad at wybodaeth (yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA), Deddf Diogelu Data 1998 (DPA) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (EIR)).

Os ydych am i ni drin eich gwybodaeth yn gyfrinachol, cofiwch fel awdurdod cyhoeddus bod gan yr Adran ddyletswydd o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac efallai y bydd angen i ni ddatgelu'r holl neu beth o'r wybodaeth a roddwch i ni.

Os cliciwch ar 'Ie' wrth ateb y cwestiwn yn gofyn a ydych eisiau i ni drin unrhyw beth yn eich ymateb yn gyfrinachol, byddai'n ddefnyddiol pe gallech egluro eich rhesymau dros gadw'r wybodaeth yn gyfrinachol.

Os cliciwch ar 'Na' wrth ateb y cwestiwn yn gofyn a ydych eisiau i ni drin unrhyw beth yn eich ymateb yn gyfrinachol, byddwn yn gallu rhyddhau cynnwys eich ymateb i'r cyhoedd ond heb gynnwys eich enw personol na'ch manylion cyswllt preifat.

Mae gennym ddyletswydd, yn bennaf o dan yr EIR, FOIA a'r DPA, i ddatgelu gwybodaeth i'r cyhoedd neu bartion eraill mewn rhai amgylchiadau.

Os derbyniwn gais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich eglurhad yn llawn ond ni allwn warantu y gallwn gadw'r wybodaeth yn gyfrinachol bob tro. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo'i hun, yn rhwymo'r Adran o gwbl.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal yn unol ag "Egwyddorion Ymgynghori" Swyddfa'r Cabinet, sydd ar gael yma:

<https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>.

Os oes gennych unrhyw sylw neu gŵyn am y broses ymgynghori ei hun, dylech e-bostio: [consultation.coordinator@defra.gov.uk](mailto:consultation.coordinator@defra.gov.uk)

Diolch i chi am roi amser i ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Os oes gennych unrhyw gwestiwn, cysylltwch â ni ar y manylion uchod os gwelwch yn dda.

Yn gywir,

Tîm Polisi a Deddfwriaeth REACH y DU,  
Ground Floor, Seacole Building, 2 Marsham Street,  
Llundain, SW1P 4DF